
**Sut gallaf gael cyswllt nwy domestig untro?**
Mae tair ffordd o gael cyswllt nwy:

**1. Defnyddio Cludwr Nwy**




| Enw'r rhwydwaith | Perchennog y rhwydwaith | Darparwr cyswllt domestig | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| Dwyrain Lloegr | Grid Cenedlaethol | Grid Cenedlaethol | http://www.nationalgrid.com/uk/Gas/Connections/ 0870 903 9999 |
| Llundain | Grid Cenedlaethol | Grid Cenedlaethol | http://www.nationalgrid.com/uk/Gas/Connections/ 0870 903 9999 |
| Gogledd Lloegr | Northern Gas Networks | Northern Gas Networks | http://www.northerngasnetworks.co.uk/cms/14.html 0870 300 7677 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | Grid Cenedlaethol | Grid Cenedlaethol | http://www.nationalgrid.com/uk/Gas/Connections/ 0870 903 9999 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yr Alban | Scotland Gas Networks | Scotland Gas Networks | http://sgn.co.uk/index.aspx?id=952<br>0845 070 1432 |
| De Lloegr | Southern Gas Networks | Southern Gas Networks | http://sgn.co.uk/index.aspx?id=952<br>0845 070 1431 |
| Cymru a Gorllewin Lloegr | Wales & West Utilities | Wales & West Utilities | http://www.wwutilities.co.uk<br>0870 165 0597 |
| Canolbarth Lloegr | Grid Cenedlaethol | Grid Cenedlaethol | http://www.nationalgrid.com/uk/Gas/Connections/<br>0870 903 9999 |

Yn y mwyafrif llethol o achosion darperir neu mabwysiedir eich cyswllt nwy untro gan y Cludwr Nwy perthnasol fel y rhestrir uchod. Mewn ambell i achos gall y bibell agosaf berthyn i Gludwr Nwy Annibynnol (IGT) trwyddedig. Nodir manylion Cludwyr Nwy Annibynnol isod:

| | |
|---|---|
| ESP Ltd | ES Pipelines, Hazeldean, Station Road, Leatherhead, Surrey, KT22 7AA<br>http://www.espipelines.com/<br>01372 227560 |
| GTC Pipelines | Woolpit Business Park, Woolpit, Bury St Edmunds, Suffolk, IP30 9UQ<br><br>http://www.gtc-uk.co.uk/<br>01359 240363 |
| Independent Pipelines Ltd | Ocean Park House, Stryd Tyndall Ddwyreiniol, Caerdydd, CF24 5GT<br><br>http://www.independentpipelines.com<br>02920 304040 |
| SSE Pipelines | Robert Brown House, Pipers Way, Thatcham, Berkshire, RG19 4AZ<br><br>http://www.scottish-southern.co.uk/SSEInternet/index.aspx?rightColExternalLinks=1280&id=2714<br>0845 300 2314 |
| Energetics Gas | International House, Stanley Boulevard, Hamilton International, Technology Park, Glasgow G72 0BN<br>http://www.energetics-uk.com/gas/<br>01698 404949 |

- I gael cyswllt gan eich Cludwr Nwy mae angen i chi hysbysu'r Cludwr Nwy o fewn amser rhesymol am fanylion y safle sydd i'w gysylltu a'r dyddiad y mae angen cael y cyswllt.

Mae Deddf Nwy 1986 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod rhwymedigaethau amrywiol ar Gludwyr Nwy o ran sut y gallant adennill eu costau yn dibynnu ar natur y cyswllt:

**Safle domestig sydd o fewn 23 metr o bibell berthnasol**

Ar gyfer safleoedd domestig sydd o fewn 23 metr o bibell berthnasol, mae'n ddyletswydd ar Gludwr Nwy, ar gais, i osod asedau sy'n angenrheidiol ar gyfer cysylltu'r safle ac mae ganddo hawl i adennill y costau rhesymol am ddarparu'r cyswllt.

Yn y rhan fwyaf o achosion y Cludwr Nwy fydd yn talu'r costau o osod y 10 metr cyntaf o bibell yn y briffordd gyhoeddus.

**Mewnlenwi**

Mae "mewnlenwi" yn derm a ddefnyddir am gymunedau lle mae nifer o eiddo sy'n bodoli eisoes nad oes ganddynt gyswllt â chyflenwad nwy. Yn aml mae'r rhain yn gymunedau anghysbell a leolir gryn bellter o bibell nwy berthnasol.

Os bydd nifer o ddarpar gwsmeriaid yn gwneud cais am gynnal prosiect mewnlenwi bydd y Cludwr Nwy yn penderfynu ar y taliad cysylltu ar ddechrau'r cynllun ac yn gosod taliad tebyg ar gyfer pob cais am gyswllt i'r bibell am gyfnod o ugain mlynedd ar y mwyaf. Darperir y trefniadau codi tâl hyn o dan y Rheoliadau Nwy (Taliadau Cysylltu).[1]

**Defnyddio Cyflenwr Nwy Trwyddedig**

Gall cyflenwyr nwy trwyddedig drefnu i osod cyswllt yn eich safle drwy Gludwr Nwy lleol neu Ddarparwr Seilwaith Cyfleustod. Gall y cyflenwr nwy drosglwyddo'r taliad am ddarparu'r cyswllt a'r pibellau. Gall y taliad hwn hefyd gynnwys ffi drefnu.

Mae cystadleuaeth lawn mewn cyflenwi nwy ym Mhrydain Fawr, a bellach gall cwsmeriaid brynu nwy gan unrhyw gwmni cyflenwi nwy sydd â thrwydded i werthu nwy ym Mhrydain Fawr. Mae rhestr o gwmnïau trwyddedig ar gael ar wefan Ofgem, www.ofgem.gov.uk, neu drwy gysylltu â Cyswllt Defnyddwyr[2] ar 08454 04 05 06.

**3. Defnyddio Darparwr Seilwaith Cyfleustod (UIP)**

Gallwch gyflogi UIP sy'n gymwys i gynnal gwaith cysylltiadau nwy. Er y gall rhai UIPs gynnal cysylltiadau domestig untro, maent yn tueddu i arbenigo mewn adeiladu rhwydweithiau ystadau newydd o dai a chysylltiadau untro annomestig mawr. Rhaid i waith a wneir gan UIP gael ei gyflawni yn unol â'r safonau a'r gweithdrefnau a bennir gan y Cludwr Nwy a fydd yn y pen draw yn mabwysiadu ac yn cynnal a chadw'r cyswllt. Ni chaniateir i bobl heb drwydded weithredu eu rhwydweithiau eu hunain. Efallai y bydd rhai UIPs hefyd yn caffael cyswllt gan Gludwr Nwy ar eich rhan fel eich asiant.

Gallwch gael rhestr o UIPs drwy fynd i wefan Cymdeithas Diwydiannau Nwy Prydain (SBGI)[3].
Cliciwch Yma

**Pibellau o'r mesurydd i'ch offer nwy**

[1] I gael rhagor o wybodaeth gweler: Rheoliadau Nwy (Taliadau Cysylltu) 2001
http://www.opsi.gov.uk/si/si2001/20013267.htm

[2] Er mai gwasanaeth i ddefnyddwyr domestig yw Cyswllt Defnyddwyr yn bennaf, bydd hefyd yn cynnig cyngor sylfaenol i ddefnyddwyr busnes.

[3] Noder efallai nad yw'n hyfyw yn fasnachol i gontractwyr UIP ddarparu cysylltiadau (untro) unigol neu wneud addasiadau i bibellau gwasanaeth domestig.

Fel arfer ni ddarperir pibellau o'ch mesurydd i'ch offer nwy gan drefniadau cyswllt a wnewch gyda'r Cludwr Nwy a/neu'ch cyflenwr nwy. Ym mhob achos, mae gofyn i beiriannydd cofrestredig Diogelwch Nwy cymwys eu gosod i chi. Gall UIPs sy'n cyflawni gwaith cysylltiadau hefyd fod wedi'u cofrestru â Diogelwch Nwy a gallant gynnig cyflawni'r gwaith hwn fel rhan o'r cyswllt.

I gael rhagor o wybodaeth am drefnu'r gwaith o osod pibellau rhwng eich mesurydd a'ch offer nwy gallwch gysylltu â'r Gofrestr Diogelwch Nwy i gael rhestr o gwmnïau sydd â'r cymhwyster i gyflawni'r math hwn o waith neu gallwch gael eu manylion o'r Yellow Pages/ llyfr ffôn.

**Gwybodaeth Gyffredinol**

- Dylai Cludwr Nwy roi dyfynbris i chi am gysylltu â'i rwydwaith, ond ni fydd y dyfynbris hwn yn cynnwys darparu mesurydd. Yn gyffredinol dylai'r broses o osod mesurydd gael ei drefnu gan eich cyflenwr nwy o ddewis. Rydym yn eich cynghori i benodi cyflenwr nwy a llofnodi contract gyda'r cyflenwr hwnnw o leiaf 28 diwrnod cyn y dyddiad rydych am i'ch nwy lifo.

- Ar ôl cysylltu eich safle â'r rhwydwaith nwy, mae'n ddyletswydd ar y Cludwr Nwy i gynnal y cyswllt am gyn hired ag sydd ei angen ac i atgyweirio a newid y pibellau i'r mesurydd pan fo angen heblaw pan fyddwch chi neu'ch asiant yn gyfrifol am unrhyw ddifrod i'r bibell.

- Os ydych yn anfodlon ag unrhyw agwedd o'r gwasanaeth a ddarperir dylech, i ddechrau, gysylltu â'r cwmni y mae gennych gontract ag ef ar gyfer y cyswllt a chwyno yn unol â'u gweithdrefnau sydd wedi'u cyhoeddi. Os ar ôl 8 wythnos (neu'n gynt os ydych chi a'r Cludwr Nwy yn cytuno na ellir gwneud unrhyw beth) rydych yn anfodlon o hyd, gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Ynni[4] (cliciwch yma) sy'n darparu cynllun unioni er mwyn delio ag anghydfodau heb eu datrys. Mewn rhai achosion gall fod yn briodol i'r Ombwdsmon gyfeirio anghydfodau i Ofgem er mwyn penderfynu arnynt yn ffurfiol.

**Gwasanaethau brys**

Dylid cofnodi pob achos brys sy'n ymwneud â nwy drwy'r rhif ffôn cenedlaethol, 0800 111 999. Os byddwch yn arogli nwy cysylltwch â'r rhif hwn ar unwaith.

Nid oes gwahaniaeth o ran y lefel o wasanaeth brys a ddarperir rhwng y Cludwyr Nwy trwyddedig gwahanol.

---

[4] O 1 Hydref 2008, daeth trefniadau newydd ar gyfer cynrychioli defnyddwyr i rym yn dilyn pasio Deddf CEAR 2007. Bydd yr Ombwdsmon Ynni yn setlo anghydfodau rhwng cwmnïau ynni a defnyddwyr domestig a defnyddwyr busnesau micro. Diffinir busnesau micro fel unigolyn a gyflenwir neu sydd am gael ei gyflenwi ar safle gyda defnydd blynyddol o: drydan nad yw'n fwy na 55,000 kWh; neu nwy nad yw'n fwy na 200,000 kWh; neu lai na 10 o gyflogeion a throsiant blynyddol nad yw'n fwy na €2m.